# YMWELIADAU SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Awst 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd W.T. Hughes (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jeff M. Evans, John Griffith, K P Hughes, Richard Owain Jones. |
| **WRTH LAW:** | Rheolwr Datblygu Cynllunio (DFJ),<br>Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu (MTD). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Ann Griffith, T. Victor Hughes, Raymond Jones. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Dylan Rees (Aelod Lleol ar gyfer ceisiadau 1 & 2) |

---

1. **34LPA1013/FR/EIA/CC – Cais llawn i adeiladu ffordd gyswllt a fydd yn cynnwys cylchfan newydd ar yr A5114, gwelliannau i'r biffordd rhwng yr A5114 a'r gylchfan gyfredol ar ben deheuol Ffordd y Stad Ddiwydiannol ac adeiladu ffordd newydd rhwng y pwynt hwn a Pharc Busnes Bryn Cefni ac o'r gogledd o Barc Busnes Bryn Cefni i Goleg Meani trwy'r B5420, Ffordd Penmynydd ynghyd â gwaith cysylltiedig ar dir i'r dwyrain o Stad Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni.**

   Esboniodd y Swyddog pa lwybr y byddai'r ffordd gyswllt yn ei dilyn a'i phwrpas. Ymwelwyd â'r amryfal gyffyrdd a rhannau ac esboniwyd eu perthynas gyda'r rhannau eraill o'r rhwydwaith ffyrdd a'r dirwedd.

2. **34C304F/1/ECON – Cais amlinellol ar gyfer estyniad i'r campws presennol yn cynnwys codi tri o unedau tri llawr gyda 250 o lecynnau parcio, uned ar wahân sy'n cynnwys campfa a stiwdio ffitrwydd gyda 60 o lecynnau parcio cysylltiedig ynghyd â chae pêl-droed pob tywydd a system ddraenio gynaliadwy gyda'r holl faterion wedi eu cadw'n ôl ar dir yn Coleg Menai, Llangefni.**

   Dangosodd y Swyddog safle'r cais. Tynnwyd sylw at wahanol elfennau'r cynnig a sut y ceir mynediad i'r safle trwy'r ffordd gyswllt arfaethedig.

3. **42C127B/RUR – Cais llawn ar gyfer codi annedd amaethyddol ynghyd â gosod system trin carthffosiaeth ar dir yn Fferm Tŷ Fry, Rhoscefnhir.**
   Dangosodd y Swyddog safle'r cais, ei natur a'i berthynas gyda'r fferm gyfagos a'r eiddo gerllaw.

   Edrychodd yr Aelodau ar safle'r cais a'i gyd-destun o lwyfan uwch yng ngardd Ty Fry sydd wedi ei restru gan CADW yn y Gofrestr o Dirweddau, Parciau a Gerddi sydd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru.

4. **24C300A/ECON – Creu llynnoedd ar gyfer defnydd pysgota a hamdden, codi siop a chaffi ac adeilad storfa ynghyd â ffyrdd mynediad a llecynnau parcio cysylltiedig ynghyd â gosod tanc septig newydd ar dir sy'n ffurfio rhan o Tyn Rhos Fawr, Dulas.**

   Dangosodd y Swyddog faint y safle ac esboniodd leoliad a maint y llynnoedd arfaethedig ynghyd â lleoliad yr adeiladau a'r ardaloedd parcio cysylltiedig.

**5. 19C1145 – Cais llawn ar gyfer codi anecs yn Harbour View Bunglow, Ffordd Turkey Shore, Caergybi**

Dangosodd y Swyddog safle’r cais, ei natur a’i berthynas gyda’r eiddo cyfagos a dygodd sylw’n benodol at leoliad yr anecs arfaethedig mewn perthynas â’r eiddo a oedd union gerllaw.

**Y CYNGHORYDD W.T. HUGHES**
**CADEIRYDD**